Hysbyseb: Prif Swyddog, yr Amgylchedd a Thechnegol

Ystod cyflog Prif Swyddog: £85,000 – £95,000

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno a'n Uwch Dîm Arweinyddiaeth newydd, yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Byddwch yn arwain ar bortffolio'r Amgylchedd a Thechnegol, yn ogystal â chyfrannu'n weithredol i'n nodau arweinyddiaeth casgliadol er mwyn darparu gwelliannau hirdymor a gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae eich portffolio yn cynnwys rhai o'n gwasanaethau rheng flaen mwyaf gweledol a phwysig. Byddwch yn cynghori ein Prif Weithredwr, a'n Haelodau Etholedig ar faterion a strategaethau Amgylcheddol a Thechnegol allweddol, yn ogystal ag arwain ar rai o'n gwaith newid pwysicaf, a phrosiectau partneriaeth eraill. Bydd disgwyliadau'n uchel o fewn a thu allan i'r Cyngor ond bydd atebolrwydd a chefnogaeth gref yn cael ei ddarparu'n gyfunol.

Byddwch yn gallu dangos sgiliau arweinyddiaeth ardderchog a gweladwy, yn gyfathrebwr medrus gyda llwyddiant blaenorol o ddylunio a darparu gwasanaethau i gwsmeriaid a rhaglenni newid arloesol a gwell. Rydym yn chwilio am rywun gyda gwybodaeth a sgiliau ardderchog yn y maes, neu sgiliau mewn sefydliad cwsmer cymhleth a thebyg y gellir eu trosglwyddo.

Er mwyn darganfod mwy am y rôl bwysig hon, ymwelwch â https://www.adeiladuarlwyddiant.cymru/ neu cysylltwch â Claire Field, Cyfarwyddwr Gweithredol am drafodaeth gyfrinachol.

Dyddiad cau: Hanner dydd, dydd Mercher 6 Chwefror 2019

Dyddiad creu rhestr fer: yr wythnos yn dechrau 11 Chwefror 2019

Diwrnod Asesiad: dyddiadau dros dro 20, 21, 22 Chwefror 2019